# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2022

Amser: 09.47 - 13.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13140

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant<br>Dr Dave Williams, Llywodraeth Cymru<br>Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru<br>Yr Athro y Fonesig Julie Lydon, Ymgeisydd ar gyfer Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil<br>Yr Athro David Sweeney, Ymgeisydd ar gyfer Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rosemary Hill (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.3 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Sioned Williams AS fod ei gŵr yn cael ei gyflogi gan Brifysgol Abertawe.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 3, 6 a 9 y cyfarfod

2.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 3 Gweithgareddau pwyllgor - diweddariad llafar

3.1 Rhoddodd yr Aelodau ddiweddariadau llafar ar weithgareddau'r Pwyllgor yr oeddent wedi'u cyflawni yn ystod y tymor. Roedd y Pwyllgor wedi gwneud gwaith ymgysylltu ar gyfer ei ymchwiliad i gymorth Iechyd Meddwl mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac i blant sydd wedi bod mewn gofal.

3.2 Cafwyd diweddariad gan Sioned Williams AS ar y gwaith ar y cyd â'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

3.3 Cafwyd ddiweddariadau gan Aelodau am gyfarfodydd a gynhaliwyd y tu allan i'r Pwyllgor:

- Rhwydwaith Hawliau Ieuenctid Merched
- Beat Cymru
- Addysgwyr yn y cartref
- Diweddariad ar gyfarfodydd gweinidogol deufisol
- Cyfarfod â pherson ifanc a'i gweithiwr prosiect Tîm Ymyrraeth Teuluoedd Caerffili
- UCM Cymru

## 4 Sesiwn graffu gyda’r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Sesiwn graffu gyda’r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant – trafod y dystiolaeth.

6.1 Trafododd Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i gael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd.

6.3 Cytunodd y Pwyllgor i roi adborth i'r bobl ifanc a gyflwynodd gwestiynau ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

## 7 Gwrandawiad cyn penodi Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

7.1 cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu ar yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru

## 8 Gwrandawiad cyn penodi Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

8.1 Cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu ar yr ymgeisydd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru

## 9 Gwrandawiadau cyn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – trafodaeth y Pwyllgor

9.1 Trafododd Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau gyda'r ymgeiswyr a ffafrir.

9.2 Oherwydd amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiadau, cytunodd yr Aelodau i ystyried yr adroddiadau ar y gwrandawiadau cyn penodi, a chytuno arnynt, yn electronig. Y dyddiad ar gyfer gosod yr adroddiadau yw dydd Llun 19 Rhagfyr.